# Odl (1)

Odl yw pan mae diwedd geiriau yn swnio'n debyg.
Dyma enghreifftiau o enwau pobl sydd yn odli gyda'i gilydd:

**Gruffudd, Dafydd, Meredydd, Hedydd...**

**Sophie, Casi, Harry, Evie...**

Wrth gwrs, nid dim ond enwau pobl sydd yn gallu odli gyda'i gilydd.
Dyma enghreifftiau eraill o eiriau sydd yn odli gyda'i gilydd:

**Mawr, Cawr, Nawr, Llawr...**

**Llyfrau, Esgidiau, Dau, Mwynhau...**

**Tasg**

Fel dosbarth, gwnewch restr o enwau pawb ac edrychwch i weld pa enwau (os o gwbl) sydd yn odli gyda'i gilydd.

# Odl (2)

Gas gen i wisgo tei!

Aeth y tei llwyd
i mewn i'r _________.

Aeth y tei coch
i fwyd y _________.

Aeth y tei gwyn
i mewn i'r _________.

Aeth y tei melyn
i'r goeden _________.

Aeth y tei pinc
i mewn i'r _________.

Aeth y tei nefi
i mewn i'r _________.

Aeth y tei mwstard
i mewn i'r _________.

Aeth y tei streips
i lawr y _________.

Aeth y tei sbotyn
i mewn i'r _________.

Aeth y tei fioled
i lawr y _________.

Aeth y tei glas
hefyd i le _________.

Aeth yr unig dei glân
i mewn i'r _________.

A dyna ddiwedd y gân.

**Myrddin ap Dafydd**

# Adeiladu delweddau (1)

**Tasg**

Pigwch 1 gair o'r Het Enwau a 2 air o'r Het Ansoddeiriau. Rhowch y geiriau wnaethoch chi eu pigo gyda'i gilydd ac adeiladwch ar y ddelwedd.

Er enghraifft:

Stryd (Enw) | lawen (Ansoddair) | sy'n garnifal o liwiau. (Adeiladu ar y ddelwedd)

Stryd | gyfrinachol | gyda phob drws ar gau.

Eich tro chi:

________ ________ ________________.

________ ________ ________________.

# Adeiladu delweddau (2)

## Het Ansoddeiriau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diog | Pwysig | Llawen | Blinedig |
| Cenfigennus | Distaw | Blodeuog | Digalon |
| Pwdlyd | Lliwgar | Llwyd | Pitw |
| Boliog | Syn | Cyfrinachol | Gwirion |
| Ffyrnig | Blewog | Crac/Blin | Gwyllt |
| Direidus | Gofalus | Ifanc | Swnllyd |
| Cyflym | Doniol | Enfawr | Diflas |
| Prysur | Busneslyd | Talentog | |

## Het Enwau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eliffant | Babi | Brân | Athro / Athrawes |
| Bwyd | Parti | Bore | Pry Genwair / Mwydyn |
| Awyr | Coeden | Môr | Taid / Tad-cu |
| Cangarŵ | Gwely | Stryd | Nain / Mam-gu |

# Cymariaethau (1)

Cymhariaeth yw dweud fod rhywbeth fel rhywbeth arall.

Dyma enghreifftiau:

**Hapus fel hipo mewn bath.**

**Trist fel lan y môr ganol gaeaf.**

**Blinedig fel Siôn Corn y diwrnod ar ôl y Nadolig.**

**Caled fel llyn wedi rhewi yn gorn.**

**Dwl/Gwirion fel jiraff yn dawnsio disgo.**

# Cymariaethau (2)

**Tasg**

Ysgrifennwch eich cymariaethau eich hun. Ceisiwch fod mor wreiddiol ag sy'n bosib - peidiwch ysgrifennu pethau amlwg efallai eich bod wedi clywed o'r blaen.

**Swnllyd** fel ____________________

**Egnïol** fel ____________________

**Dychrynllyd** fel ____________________

**Lliwgar** fel ____________________

**Drewllyd** fel ____________________

**Blasus** fel ____________________

**Ych a fi** fel ____________________

**Caredig** fel ____________________

**Doniol** fel ____________________

__________ fel ____________________

__________ fel ____________________

# Rhestr Siopa Bwystfil

Pe mentrwch ddarllen rhestr siopa bwystfil ar ei hyd,
fe welwch chi restr fwyaf dychrynllyd y byd.

Chwys o gesail athro, Snot wedi ffrio,
Bananas du drewllyd, Plant bach swnllyd,
Pw-pw babŵn, Dannedd racŵn,
Llygaid llysnafeddog, Bodiau traed blewog.

Fflwff botwm bol, Malwoden anferthol,
Llefrith wedi suro, Ffa pob wedi llwydo,
Ewinedd gwrach, Cath mewn sach,
Poer poeth draig, Clustiau hen wraig.

Rhestr go fer yw'r rhestr hon a dweud y gwir.
Efallai y gallwch chi feddwl am fwy a'i gwneud yn rhestr hir?

**Anni Llŷn**

# Cerdd Restr (1)

**Tasg**

Ychwanegwch o leiaf 10 peth yr ydych yn cysylltu â'r gair Dathlu, a 10 peth yr ydych yn cysylltu â'r gair Dwl / Gwirion i'r rhestrau isod.

| Dathlu | Dwl / Gwirion |
| --- | --- |
| Parti | Cangarŵ |
| Caneuon | Pandas |
| Dillad lliwgar | Clown |
| Bwyd blasus | Dillad sydd yn ffrwydro |
| Teisennau | |

# Cerdd Restr (2)

**Tasg**

Defnyddiwch eich rhestrau Dathlu a Dwl / Gwirion i orffen y gerdd isod. Ceisiwch ychwanegu un neu ddwy bennill arall.

**Ar y diwrnod dathlu dwl...**

Bydd panda'n chwarae piano
ac esgidiau'n yfed te.
Bydd teisennau'n gwisgo hetiau
ac yn canu dros y lle!

# Parti'r Bardd Plant

Mae'n amser trefnu parti!
Cawn sosej rôls a __________.
Mae bardd y plant bach gora' 'rioed
yn ugain __________ eleni.

Cawn gwmni'r bwystfil boliog
sy'n bwyta pigau __________,
bisgedi hir sy'n binc fel moch
a theisen __________ fel llwynog.

Bydd yno lwyth o gemau!
Cawn chwarae gyda __________,
A bwyta tybiau hufen __________
fel beirdd bach da llawn odlau.

Dewch __________, __________ a __________,
a __________, __________ a __________,
a'ch ffrindiau i gyd, bydd croeso mawr,
Dewch, brysiwch __________ i'r parti!